


95.1%

## Presenoldeb y flwyddyn ysgol mor belled

Wrth dorri ar gyfer gwyliau hanner tymor y gwanwyn, rydyn ni tua hanner ffordd trwy'r flwyddyn addysgol bresennol. Presenoldeb yr ysgol ar hyn o bryd yw 95.1%. Cofiwch fod presenoldeb da a chyson yn rhoi'r cyfle gorau i'ch plentyn lwyddo mewn addysg. Os oes gennych bryder am bresenoldeb eich plentyn dewch i 'ngweld os gwelwch yn dda.

## *Attendance of the school year so far*

*As we break for the spring half term break, we are about halfway through the current academic year. School attendance is currently 95.1%. Remember that good and consistent attendance gives your child the best chance to succeed in education. If you have a concern about your child's attendance, please come and see.*

---

## Eisteddfod Ysgol heddiw

Cafwyd diwrnod arbennig yn ein heisteddfod ysgol heddiw. Llongyfarchiadau i'r plant i gyd am eu hymdrechion, nid yn unig ar y llwyfan heddiw, ond yn y paratoadau ymlaen llaw, ynghyd â'r holl dasgau llenyddol a chelfyddydol cyn y diwrnod. Mae'r holl ganlyniadau wedi eu rhannu ar Instagram yr ysgol.

Bum yn recordio fideos o'r diwrnod hefyd, er mwyn creu un ffilm Eisteddfod Ysgol i'w rhannu gyda chi cyn hir.

## *Today's School Eisteddfod*

*We had a special day at our school eisteddfod today. Congratulations to all the children for their efforts, not only on the stage today, but also in the preparations beforehand, along with all the literary and artistic tasks before the day.*
*All the results have been shared on the school's Instagram.*

*We also recorded videos of the day, in order to create a school Eisteddfod film to share with you shortly.*

---

## Neges gan y C.Rh.A

Dymuna'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddiolch i'r rhieni a ddaeth i'r cyfarfod nos Fawrth er mwyn trafod a chynllunio'r digwyddiadau nesaf, yn ogystal â thrafod gwariant yr arian a godir gan y Gymdeithas.

Wrth edrych ymlaen at y Pasg, maent yn gofyn i unrhywun a fyddai'n dymuno cyfrannu at brynu wyau Pasg i'r plant gysylltu â nhw drwy e-bost crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

## *A message from the P.T.A*

*The Parents and Teachers Association would like to thank the parents who came to the meeting on Tuesday evening to discuss and plan the upcoming events, as well as to discuss how the money raised by the Association is spent.*

*As they look ahead to Easter, they are asking anyone who would like to contribute towards buying Easter eggs for the children to contact* crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

---



## Pen-blwydd Mistar Urdd yn 50oed

Bydd yr ysgol yn ymuno yn nathliadau pen-blwydd Mistar Urdd yn hanner cant oed ar y 25ain o Chwefror eleni. Bydd disgyblion Blwyddyn 5 yn cymryd rhan mewn gweithdy celf ac yn ymweld â'r dre i ddadorchuddio murlun i nodi'r achlysur. Diolch yn fawr i'r Urdd am y gwahoddiad a dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mistar Urdd!

## *Mistar Urdd is 50!*

*The school will be joining in the celebrations of Mistar Urdd's 50th birthday on the 25th of February this year. Year 5 pupils will take part in an art workshop and will visit the town to unveil a mural to mark the occasion.*
*Many thanks to the Urdd for the invitation, and we wish Mistar Urdd a very happy birthday!*

## Cadw Eich Plentyn Mewn Cof

Gweler y poster ar waelod y llythyr hwn sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr i gydweithio i gefnogi twf eu plant.

Mae'r sesiynau am ddim ac yn dechrau wythnos nesaf.

Hysbysfwrdd Rhianta a Chefnogaeth i - Cyngor Sir Ceredigion

## *Keeping Your Child in Mind*

*Please see the poster at the bottom of this letter which contains information for parents and carers to work together to support their children's growth.*

*The sessions are free, starting next week.*

*Parenting and Family Support Noticeboard - Ceredigion County Council*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig i ddod:

- Diwrnod cau H.M.S : Mawrth 6ed
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25ain
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18fed

### *Upcoming important dates:*

- *I.N.S.E.T school closure day : March 6th*
- *Area Eisteddfod : March 25th*
- *County Eisteddfod : April 18th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**13/02/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru

Enillwyr y prif dlysau, Eisteddfod Ysgol 2026 >




Dathlu Dewi
Amserlen llawn gweithgareddau i baratoi at ddathlu Dydd Gŵyl Dewi
Canolfan Arad Goch,
Stryd y Baddon,Aberystwyth
17/02/26 : 09:30-15:30
Gweithdai oed cynradd Bl. 3 - 6
Paratoi at barêd Gŵyl Dewi
18/02/26 : 09:30-15:30
Gweithdai celf oed uwchradd
20/02/26
Gweithdai Bl.8 i fyny
Gweithdai jamio a gigio Dathlu Dewi
Theatr Byd Bach,
Ffordd Bath House, Aberteifi
19/02/26 : 09:30-15:30
Gweithdai celf oed uwchradd
20/02/26 : 09:30-15:30
Gweithdai oed cynradd Bl. 3 - 6
Paratoi at barêd Gŵyl Dewi
£5 y diwrnod i bob plentyn
I gofrestru e-bostiwch : llyr@aradgoch.org
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Arad Goch
Small World
Byd Bach


GWERSYLL PÊL-DROED HANNER TYMOR CHWEFROR 2026
FEBRUARY HALF TERM FOOTBALL CAMP 2026
Aberystwyth Football Club
Dydd Llun | Monday February 16th 2026
9am - 2pm
Aberteifi | Cardigan - Teifi Leisure Centre
Dydd Mawrth | Tuesday February 17th 2026
9am - 2pm
OT COACHING
£20 y dydd | a day!
15% Sibling Discount!
Bechgyn a Merched Oed 5-12 Pob Gallu | Boys & Girls age 5-12 All Abilities
FAW/UEFA Licensed Coaches | First Aid Trained DBS Checked
LJV Construction
Diverse access
www.otcoaching.co.uk
otcoaching1@gmail.com


Sianel Dewin a Doti
nawr ar YouTube!
Dewin a Doti
meithrin.cymru
youtube.com/@Dewinadoti


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
CADW EICH PLENTYN MEWN COF
NYTH NI, CAMPWS LLWYN YR EOS PENPARCAU
CWRS 5 WYTHNOS
Yn dechrau Dydd Mawrth 24ain Chwefror
9.45yb-11.45yb
Grŵp i helpu rhieni a gofalwyr i gydweithio i gefnogi twf eu plant
Mantesion:
• Datblygu dealltwriaeth rhieni o effaith eu perthnasoedd rhyngbersonol ar blant a phobl ifanc.
• Hyrwyddo dulliau cadarnhaol o leihau gwrthdaro rhwng rhieni.
• Archwilio pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol o fewn teuluoedd.
CRECHE AR GAEL
RHAID I CHI GYSYLLTU Â NI I GADW EICH LLE
Dwynwen - 07929 752 824
Kiri - 07929 752 948
Nyth Ni, Campws Llwyn yr Eos
Penparcau, Aberystwyth.
SY23 1SH
What3words///cysonaf.egni.yfwn
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg
Flying Start


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
KEEPING YOUR CHILD IN MIND
NYTH NI, LLWYN YR EOS CAMPUS PENPARCAU
5 WEEK COURSE
Starts Tuesday 24th February
9.45am-11.45am
A group for parents and carers to work together to support their children's growth
Benefits:
• Helps parents understand the importance of positive relationships within families
• Develops parents' understanding of the impact of their interpersonal relationships on children and young people.
• Promotes positive approaches to reducing parental conflict.
CRECHE AVAILABLE
BOOKING ESSENTIAL
Dwynwen - 07929 752 824
Kiri - 07929 752 948
Nyth Ni, Llwyn yr Eos Campus,
Penparcau, Aberystwyth.
SY23 1SH
What3words///gain.note.betraying
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg
Flying Start







**Gweithgareddau ar gyfer hanner tymor:**

- Mon 16th Feb - Multi-Sports Camp @ Plascrug LC
- Tue 17th Feb - NEW! Dodgeball Tournament @ Bow Street FC 3G
- Wed 18th Feb - 1-2-1 + Small Group Development sessions @ Bow Street FC 3G
- Thu 19th Feb - Soccer School @ Aberystwyth Town FC
- Thu 19th Feb - Goalkeeper Camp @ Aberystwyth Town FC
- Fri 20th Feb - Drop N' Shop Tournament Day @ Aberystwyth Town FC

*Book - BMO Coaching*






Hoffwn dynnu eich sylw i'r ffaith fod Rhaglen Aled Hughes yn cynnal cystadleuaeth **Sgwennu Stori** unwaith eto yn 2026 i ddisgyblion ysgolion Cymru. Mae'r gystadleuaeth ar agor i flynyddoedd 2-6 yn yr ysgolion cynradd, ac am y tro cyntaf mae categori uwchradd ar gyfer blynyddoedd 7,8 a 9.

Rydym yn galw ar ddisgyblion i ysgrifennu **stori o ddim mwy na 500 gair**. Eleni, mae'r beirniaid Siôn Tomos Owen ac Anni Llŷn wedi gosod brawddegau agoriadol y straeon.

Dyma'r brawddegau agoriadol:

**CYNRADD**
Ysgrifennwch stori fer sydd yn ddim mwy na 500 gair sydd yn cychwyn gyda'r paragraff yma:
**Beth yn y byd oedd y Peth? A pwy union oedd wedi ei weld? Dim ond fideos o'r peth hwn yn torri trwy'r ddaear fel twrch daear oedd yn bodoli. Wel, dim ond fideos oeddwn i wedi weld tan y diwrnod pan welais i'r Peth, a'r holl bethau yr oedd o'n ei wneud gyda fy llygaid fy hun.**

**Bydd y dyddiad cau ar y 5ed o Fawrth**.

Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar y **28 Ebrill 2026**, lle bydd yr enillwyr eu hunain yn derbyn rhodd gan y Cyngor Llyfrau, ynghyd â chlawr digidol wedi'w gynllunio ar gyfer y straeon buddugol. Bydd y Cyngor Llyfrau hefyd yn trefnu ymweliad i'r ysgolion buddugol gan awdur i gynnal gweithdy ysgrifennu.
Os am gystadlu, rhaid i'r straeon gael eu hanfon drwy'r ysgol (ynghyd â'r ffurflen gais sydd i'w chael ar wefan Radio Cymru) i Radio Cymru erbyn y dyddiad cau, **5ed o Fawrth 2026.**

Ceir holl fanylion cystadlu, y rheolau a'r ffurflen gais yma:
https://www.bbc.co.uk/programmes/articles/1bjzWYcW158my4Q4cjsfxDJ/sgwennu-stori-aled-hughes-2026

